
GRAFFEG

## Llygoden a Twrch

# Llygoden a Twrch Go Arbennig




Awdur: Joyce Dunbar
Darlunydd: James Mayhew
Oed: 5-7
Fformat: Clawr caled
Iaith: Cymraeg
Maint: 200 x 250mm
Pris: £7.99

## Clawr

**Dewch i drafod...**

Beth yw teitl y llyfr?

Enwau pwy sydd oddi tan y teitl?

Yr awdur sydd wedi ysgrifennu'r llyfr.

Y darlunydd sydd wedi tynnu'r lluniau.

Pwy welwch chi?

Pa fath o anifeiliaid ydynt?

Beth mae Llygoden a Twrch yn ei wneud?


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Darganfyddwch pa anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig?

Gwnewch setiau o anifeiliaid sy'n byw mewn coed, dwr, tyllau.

Crëwch ardal byd bach natur.

Ewch am dro i'r parc neu'r goedwig a chasglu pethau naturiol.




## I Bwy?/ cynnwys

**Dewch i drafod...**

Ambell dro fe wna'r awdur gyflwyno'r llyfr i rywun arbennig – i Joy Whitby mae'r llyfr yma.

I bwy fyddech chi'n cyflwyno eich llyfr?

Mae'r dudalen gynnwys ar y dde – mae'n dweud wrthym y storiau sydd yn y llyfr.

Sawl stori sydd yn y llyfr yma?


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Edrychwch mewn llyfrau eraill pwy maent wedi eu cyflwyno iddynt.


Edrychwch am y dudalen lle mae stori'r cerrig mân yn dechrau..


*Llygoden a Twrch Go Arbennig* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings.
www.graffeg.com/pages/teachers-resources.


GRAFFEG











## Hanner banana (t7)

**Geiriau diddorol:**

cuddio
chwant
crensiog
penderfynol
gwichiodd
hoe
llwglyd

**Dewch i drafod...**

Adroddwch/ Rhannwch y stori –

Beth hoffai Twrch wneud gyda hanner ei fwyd?

Beth yw eich hoff fyrbryd/ snac?

Ble fyddech yn cuddio eich hanner arall?

Beth gawn ni fel snac yr wythnos yma?

Ble cuddiodd Twrch ei hanner banana?

Beth oedd yn y drâr?

Ble rhoddodd ei gacen crensiog?

Oedd Llygoden yn gwybod mai bwyd Twrch oeddynt?

A fyddech chi wedi eu bwyta?


**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Rhestrwch eich 10 hoff fwydydd, teganau, gemau..

Helfa o gwmpas y dosbarth tu allan – cuddiwch deganau neu losin iddynt ddod o hyd iddynt.

Trafodwch cadw bwydydd yn fres.

Chwaraewch gemau gyfeiriadau– cuddiwch eitem yna rhowch gyfarwyddiadau oer/ cynhesu/ poeth/ berwi wrth iddynt ddod yn agosach atynt..





## Pwll poitsh (t16)

**Geiriau diddorol:**

poitsh
troedio
ffon
chwipio
tywynnu

**Dewch i drafod...**

Beth mae poitsh yn ei olygu? Dywedwch y gair eto menw llais uchel, tawel, ffyslyd...


Adroddwch/ rhannwch y stori.


Edrychwch ar y lluniau – a yw'r ddau'n cael sbri?

Pwy sy'n hoffi pyllau? Pa un hoffech chi ei gael ffon neu pwll dŵr? Beth fyddech yn galw eich pwll/ ffon?

A oedd Llygoden yn garedig i Twrch?

*Llygoden a Twrch Go Arbennig* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings.
www.graffeg.com/pages/teachers-resources.





Pwy welson nhw ar y ffordd adref?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Crëwch byllau i arnofio cychod ynddynt.


Beth gallwn wneud gyda ffon?


Beth gall fod droi i fod?


Crëwch ffyn hyd a gwnewch swynion.


Ychwanegwch inc i byllau dŵr a crëwch luniau neu gardiau diddorol.











## Cerrig mân (t25)

**Geiriau diddorol:**

cerrig
pwysig
gormod
gwahanol
arbennig
hardd
streipiog

**Dewch i drafod...**

Pwy sydd wedi taflu cerrig i'r dŵr a'u gwylio'n sblasio?

Adroddwch/ rhannwch y stori.

Pam bod Llygoden a Twrch yn drist?

Sut fyddech chi wedi eu helpu i deimlo'n well?

Beth wnaethant ddysgu o weld y cerrig mân?

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**


Casglwch gerrig mân:

Edrychwch ar y lliwiau a'r patrymau arnynt.

Trefnwch y cerrig o'r lleiaf i'r mwyaf.

Peintiwch y cerrig a gadewch nhw mewn llefydd gwahanol i eraill eu darganfod a'u cymryd.

*Llygoden a Twrch Go Arbennig* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings.
www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Clawr cefn

**Dewch i drafod...**

Beth welwch chi ar y clawr cefn?

Y teitl, enw'r awdur a'r dylunydd.

Mae broliant yno hefyd – disgrifiad byr o'r stori yw'r broliant.

Fedrwch chi weld y bargôd – rhif arbennig yw hwn – mae gan bob llyf ei fargôd unigryw.

**Dewch i ddarganfod.../ i wneud**

Sawl seren allan o 5 fyddech yn rhoi i'r llyfr.

Casglwch lyfrau eraill gan Graffeg a'u gosod mewn basged i bawb eu mwynhau.

## LLYGODEN A TWRCH:

**Llygoden a Twrch**
ISBN 9781802582130

**Llygoden a Twrch Go Arbennig**
ISBN 9781802581690

**Llygoden a Twrch a'r Parti**
ISBN 9781802581706

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*Llygoden a Twrch Go Arbennig* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings.
www.graffeg.com/pages/teachers-resources.